# CYNLLUN STAMPIAU TOLL FEPIO'R DEYRNAS UNEDIG

Porth Stampiau Toll Fepio'r DU Canllaw i Ddefnyddwyr ar gyfer Gweithredwyr Prynu (Cam 1 - Archebu Stampiau)

Fersiwn: 1.2
04.06.2026

**CYFRINACHOL**



## HANES Y DDOGFEN

| Fersiwn | Dyddiad | Arsylwadau |
|---|---|---|
| Fersiwn 1.0 | 27.03.2026 | Datganiad cyntaf (ar sail defnyddio v1.0.0). |
| Fersiwn 1.1 | 30.03.2026 | Diweddaru'r rhif ffôn a Hawlfraint. |
| Fersiwn 1.2 | 18.05.2026 | Diweddaru'r adran Dilysu Manylion Mewngofnodi a Mathau o Godau. Ychwanegu pennod rhagolwg (ar sail defnyddio v1.1.0). |

*Mae'r holl ddeunydd yn y tudalennau hyn, gan gynnwys y testun, y cynllun, y cyflwyniad, y logos, yr eiconau, y lluniau a'r holl waith celf arall – gan gynnwys unrhyw waith deilliadol – yn eiddo deallusol i CARTOR Security Printers Limited ("CARTOR") neu wedi'u trwyddedu i CARTOR, oni nodir yn wahanol. Maent hefyd wedi'u diogelu gan nod masnach, patent neu hawlfraint. Ni awdurdodir atgynhyrchu nac ailddefnyddio'r deunyddiau, na'u defnyddio at ddibenion masnachol, heb ganiatâd ysgrifenedig penodol CARTOR ymlaen llaw. Ni cheir defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y tudalennau hyn, neu sy'n deillio ohonynt, ar gyfer datblygu, cynhyrchu na marchnata unrhyw gynnyrch neu wasanaeth, nac ar gyfer unrhyw ddiben arall, heb ganiatâd ysgrifenedig penodol CARTOR ymlaen llaw.*



CYFRINACHOL

CARTOR
SECURITY PRINTERS

# TABL CYNNWYS


**1 RHAGAIR** ....................................................................................................................**4**

**2 CYFLWYNIAD** ................................................................................................................**5**

2.1 Cam 1 - Stampiau Toll Fepio Trosiannol ..............................................................5
2.2 Rolau a Chyfrifoldebau ...........................................................................................5
2.3 Nwyddau Fepio ......................................................................................................6
2.4 Stampiau'r Doll Fepio..............................................................................................6
2.5 Mathau o Godau a Mathau o Ddeunyddiau Pacio ..................................................6

**3 CYCHWYN ARNI** ............................................................................................................**8**

3.1 Gofynion System.....................................................................................................8
3.2 Dilysu Manylion Mewngofnodi cyn Defnyddio Porth VDS y DU ...............................8
3.3 Defnyddio Porth VDS y DU....................................................................................10
3.4 Dewislen Porth VDS y DU .....................................................................................11
3.5 Awgrymiadau Gwe-lywio........................................................................................11

**4 RHAGOLWG** ..................................................................................................................**12**

4.1 Beth yw'r terfynau prynu ? ....................................................................................12
4.2 Gweld a Chwilio am Derfynau Prynu .....................................................................13

**5 ARCHEBU** ......................................................................................................................**13**

5.1 Chwilio am Archeb ................................................................................................14
5.2 Statws Archeb.........................................................................................................15
5.3 Gweld Symudiad Archeb .......................................................................................15
5.4 Creu Archeb o fewn Terfyn Prynu .........................................................................18
5.5 Canslo Archeb .......................................................................................................23

**6 GEIRFA** .........................................................................................................................**26**

**7 CYSYLLTU** ....................................................................................................................**27**





CYFRINACHOL

# 1 Rhagair

## Pwrpas

Mae’r canllawiau hyn yn disgrifio sut mae defnyddio rhyngwynebau defnyddwyr Porth Stampiau Toll Fepio’r DU (Porth VDS y DU). Mae Porth VDS y DU yn galluogi’r Gweithredwyr Prynu i archebu stampiau toll fepio yn y Deyrnas Unedig (DU).

**Sylwer**: Mae’r canllawiau hyn yn seiliedig ar Gam 1 cynllun stampiau’r doll fepio (VDS) ac yn berthnasol i’r trefniadau Archebu. Mae’r holl luniau yn y llawlyfr hwn yn enghreifftiau at ddibenion darlunio yn unig ac efallai byddant fymryn yn wahanol i’r rhai go iawn.

## Cynulleidfa darged

Mae’r llawlyfr hwn ar gyfer defnyddwyr awdurdodedig, h.y. **Gweithredwr Prynu** sydd wedi cael eu hyfforddi ymlaen llaw ac sydd wedi cael eu dilysu ym Mhorth VDS y DU gyda hawliau mynediad priodol. Dim ond y data sy’n berthnasol i’w safleoedd cynhyrchu y bydd y defnyddiwr yn cael mynediad ato.

Mae Gweithredwyr Prynu yn cael eu diffinio fel gweithgynhyrchwyr yn y DU, ceidwaid warysau yn y DU a chynrychiolwyr yn y DU sydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr awdurdodau yn y DU i brynu stampiau’r doll fepio gan y Cyflenwr.

## Dogfennau cysylltiedig

| ENW’R DDOGFEN | DISGRIFIAD |
|---|---|
| Canllawiau Gosod Stampiau Toll Fepio’r Deyrnas Unedig f.1.0 | Mae’r ddogfen hon yn rhoi canllawiau er mwyn gosod stampiau’r doll fepio’n gywir ar gynnyrch fepio. Y Gweithredwr Gosod sy’n gyfrifol am osod y stamp. |

## Confensiynau

Bwriad y confensiynau canlynol yw tynnu sylw’r defnyddiwr at y cyfarwyddiadau cysylltiedig:

**Awgrym**: Awgrymiadau defnyddiol er mwyn defnyddio’r system.

Sylwer: Gwybodaeth berthnasol i hwyluso gweithrediad neu gydymffurfedd, a allai wella gweithrediad y system.

## Cael help

Edrychwch ar y llawlyfr hwn i ddefnyddwyr yn y lle cyntaf bob tro er mwyn cael gwybod sut mae defnyddio’r system. Os na allwch ddatrys y broblem ar ôl darllen y llawlyfr hwn, cysylltwch â’r gwasanaeth cymorth VDS-support@cartor.com. Ffôn: +44 0800 229 4160.

## Cymhwysedd y Ddogfen

Mae’r wybodaeth yn y llawlyfr hwn i ddefnyddwyr yn ddilys ar y dyddiad a nodir ar y clawr blaen. I gael rhifynnau pellach, cysylltwch â’r gwasanaeth cymorth VDS-support@cartor.com. Ffôn: +44 0800 229 4160.

## Gwybodaeth am y llawlyfr hwn

| Modiwl Porth VDS y DU | Is-ddewislen | Disgrifiad | Tudalen |
|---|---|---|---|
| **Archebu** | Chwilio am Archeb | Chwilio a gweld yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ddanfon archeb benodol. | 14 |
| | Creu Archeb | Creu archebion. Tracio'r broses archebu gyffredinol o'r adeg y caiff archebion eu creu nes iddynt gael eu danfon. | 18 |
| **Rhagolwg** | Chwilio Rhagolwg | Chwilio a gweld y terfynau prynu ar gyfer cyfnod. | 13 |

# 2 Cyflwyniad

Wrth gyflwyno cynllun stampiau'r doll fepio (VDS) sy'n cael ei weithredu yn y Deyrnas Unedig, mae proses wedi cael ei rhoi ar waith er mwyn i'r Gweithredwyr Prynu allu archebu stampiau'r doll fepio ac er mwyn i'r Gweithredwyr Gosod osod stampiau'r doll fepio ar eu cynnyrch fepio.

Mae'r broses yn cynnwys:

1. **Cofrestru:** Dyma'r cam cyntaf ac mae'n golygu cofrestru ar gyfer y cynllun VDS.
2. Archebu: Mae'r ail gam yn golygu archebu stampiau'r doll ym Mhorth VDS y DU https://vds-cartor.co.uk.
3. **Ysgogi ac Archwilio:** Mae'r camau hyn yn golygu sganio stamp y doll. Fodd bynnag, ni wneir unrhyw weithgareddau sganio yn ystod Cam 1 y cynllun.

**Sylwer**: Mae'r canllawiau hyn yn rhoi sylw i'r trefniadau a roddir ar waith yng Ngham 1 y cynllun VDS h.y. Cofrestru ac Archebu. Bydd diweddariadau yn y dyfodol ar gael yn fersiwn nesaf y canllawiau hyn.

## 2.1 Cam 1 - Stampiau Toll Fepio Trosiannol

Mae Cam 1 yn dechrau ar 1 Ebrill 2026 tan 31 Awst 2026.

Tan 31 Awst 2026, dim ond stampiau toll fepio trosiannol y bydd Gweithredwyr Prynu yn gallu eu prynu. Mae'r stampiau hyn yn cynnwys yr holl nodweddion diogelwch ffisegol ac maent yn cael eu cynhyrchu yn yr un dimensiynau mewn fformatau gwlyb a sych, ond nid ydynt yn cynnwys y nodwedd ddigidol ac nid oes angen eu sganio.

Ni fydd modd dychwelyd stampiau trosiannol i'r cyflenwr na chael ad-daliad amdanynt, felly archebwch dim ond faint byddwch chi eu hangen. O 1 Hydref 2026 ymlaen, rhaid i bob cynnyrch fepio sy'n cael ei ryddhau ar y farchnad fod â stamp toll fepio arno.

Bydd stampiau toll fepio gyda'r nodwedd ddigidol ar gael o 1 Medi 2026 ymlaen.

## 2.2 Rolau a Chyfrifoldebau

| RÔL | CYFRIFOLDEB |
|---|---|
| Gweithredwr Prynu | Bod yn gyfrifol am archebu stampiau'r doll fepio. |

| | |
|---|---|
| Gweithredwr Gosod | Bod yn gyfrifol am osod stamp y doll fepio ar gynnyrch fepio yn ogystal â chadw stampiau’n ddiogel a’u storio’n briodol. |
| Gweithredwr Sganio | Ddim yn berthnasol yng Ngham 1 y cynllun VDS. Bod yn gyfrifol am sganio stampiau’r doll fepio a chofnodi data. |

## 2.3 Nwyddau Fepio


Rhaid i gynnyrch fepio fod â stamp y doll arnynt cyn eu rhyddhau i’r farchnad. Ni ddylid rhyddhau unrhyw gynnyrch sydd â’r stampiau arnynt i’r farchnad tan 1 Hydref 2026.

## 2.4 Stampiau’r Doll Fepio

Mae stampiau’r doll fepio yn stampiau papur sy’n cyfuno nodweddion diogelwch ffisegol ag elfennau digidol ar gyfer dilysu. Mae stampiau’r doll fepio yn labeli diogel iawn sy’n dangos bod eich cynnyrch fepio yn gyfreithlon. Gall stampiau’r doll fod yn rhai sych neu wlyb.

Yn ystod Cam 1 dim ond stampiau toll fepio trosiannol y bydd Gweithredwyr Prynu yn gallu eu prynu. Mae’r stampiau hyn yn cynnwys yr holl nodweddion diogelwch ffisegol ac maent yn cael eu cynhyrchu yn yr un dimensiynau mewn fformatau gwlyb a sych, ond nid ydynt yn cynnwys y nodwedd ddigidol ac nid oes angen eu sganio.

Ar ôl archebu stampiau’r doll, eu cymeradwyo a thalu amdanynt, bydd stampiau’r doll yn cael eu danfon i’r Gweithredwr Gosod. Y Gweithredwr Gosod sy’n gyfrifol am osod stampiau’r doll fepio ar gynhyrchion fepio.

| MATH O STAMP | LLUN O’R STAMP |
|---|---|
| Stamp y doll fepio (SYCH) |  |
| Stamp y doll fepio (GWLYB) |  |

## 2.5 Mathau o Godau a Mathau o Ddeunyddiau Pacio

Er mwyn deall sut mae archebion yn cael eu rheoli yn y system, mae hi’n bwysig adnabod y confensiynau archebu yn gyntaf, sef:

- **Math o god** : mae hyn yn cyfeirio at gategori’r cynnyrch fepio a’r gyfradd dreth ac mae’n cael ei nodi yn unol â chynllun Stampiau Toll Fepio’r DU.
- **SCRef** : mae’n golygu Cyfeirnod Cadwyn Gyflenwi sy’n gysylltiedig ag archebu’r math o god.
- **Nifer** : mae’n golygu nifer y stampiau toll y gellir eu harchebu ac mae’n dibynnu ar y math o ddeunydd pacio.
- **Math o ddeunydd pacio** : mae’n golygu math o ddeunydd pacio y stampiau toll h.y. Pecyn o ddalenni neu rîl o stampiau.



CYFRINACHOL

Awgrymiadau:

- Bydd stampiau sych yn cael eu cyflenwi mewn bocsys a bydd yn rhaid archebu isafswm o 1,000 o stampiau.
- Bydd stampiau gwlyb yn cael eu cyflenwi mewn coiliau gyda chanol 3 modfedd. Bydd yn rhaid archebu isafswm o 1,000 o stampiau fesul rîl.

Edrychwch ar y tabl isod i gael rhestr o'r mathau o godau, cyfeirnodau cadwyn gyflenwi cysylltiedig, niferoedd a mathau o ddeunydd pacio.

| SCREF | MATH O GOD | MATH O DDEUNYDD PACIO | NIFER |
|---|---|---|---|
| Fêps lleol Sych - 108'000 | Fêps lleol - Sych | PENTWR O STAMPIAU | 108'000 |
| Fêps lleol Sych - 1'000 | Fêps lleol - Sych | PENTWR O STAMPIAU | 1'000 |
| Fêps lleol Sych - 18'000 | Fêps lleol - Sych | PENTWR O STAMPIAU | 18'000 |
| Fêps lleol Hunan-adlynol (gwlyb) - 20'000 | Fêps lleol -Hunan-adlynol | RÎL | 20'000 |
| Fêps lleol Hunan-adlynol (gwlyb) - 1'000 | Fêps lleol -Hunan-adlynol | RÎL | 1'000 |
| Fêps lleol Hunan-adlynol (gwlyb) - 5'000 | Fêps lleol -Hunan-adlynol | RÎL | 5'000 |
| Fêps lleol Hunan-adlynol (gwlyb) - 10'000 | Fêps lleol -Hunan-adlynol | RÎL | 10'000 |

**Nodiadau:**

- Mae'r termau "math o god", "dosbarthwr cynnyrch" a "dosbarthwr" yn gyfystyr â'i gilydd ac yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol ym Mhorth VDS y DU. Er mwyn cadw pethau'n syml, bydd "math o god" yn cael ei ddefnyddio fel term homogenaidd drwy'r llawlyfr hwn.



CYFRINACHOL

# 3 Cychwyn Arni

## 3.1 Gofynion System

Mae angen y rhagofynion canlynol i ddefnyddio'r system:


- Rhaid i Weithredwyr Prynu ddilysu eu manylion mewngofnodi cyn defnyddio Porth VDS y DU.
- Bydd Gweinyddwr y system yn rhoi enw defnyddiwr i fewngofnodi i Borth VDS y DU.
- Cydnawsedd y Porwr: Chrome, Firefox, Safari, Edge.

## 3.2 Dilysu Manylion Mewngofnodi cyn Defnyddio Porth VDS y DU

Mae'r adran hon yn disgrifio sut mae dilysu eich manylion mewngofnodi fel defnyddiwr Gweithredwr Prynu cyn cael defnyddio Porth VDS y DU.


### 3.2.1 GWNEUD CAIS I DDILYSU MANYLION MEWNGOFNODI

1. Bydd mynediad i Borth VDS y DU yn cael ei ddarparu mewn llythyr ffisegol a anfonir gan Swyddog awdurdodedig cynllun stampiau'r doll fepio. Ar ôl agor y ddolen yn eich porwr, bydd y sgrin ddilysu croeswirio yn cael ei harddangos i gyflwyno'r rhif VDS a dderbyniwyd yn y llythyr a'r e-bost a ddefnyddiwyd i gofrestru. Os bydd problem, cysylltwch â rhif desg gwasanaeth CARTOR a fydd yn cael ei arddangos ar y sgrin hon




*Ffigur 1 : Gwneud cais i ddilysu manylion mewngofnodi*

2. Bydd angen i'r defnyddwyr ddewis y botwm "Dilysu manylion mewngofnodi" i ddechrau'r broses ddilysu. Ar y pwynt hwn, mae angen i'r defnyddwyr gyflwyno'r rhif VDS a'r e-bost a ddefnyddir wrth gofrestru.





*Ffigur 2 : Cyflwyno VDS a sgrin e-bost*

3. Ar ôl cyflwyno data, bydd y system yn dilysu bod y manylion mewngofnodi yn gywir ac anfonir e-bost i osod y cyfrinair at y gweithredwr. Cliciwch ar y ddolen "Gosod cyfrinair"

> Dear user,
>
> Your username is ashleen.premjit@sicpa.com, please use the following link to set your password: Set your password.
>
> The link is valid for 24 hours. In case it expired please use the **Forgot password** link on the login page.
>
> Best regards.
>
> ---
>
> Annwyl defnyddiwr,
>
> Eich enw defnyddiwr yw ashleen.premjit@sicpa.com, defnyddiwch y ddolen ganlynol i osod eich cyfrinair: Gosod eich cyfrinair.
>
> Mae'r ddolen yn ddilys am 24 awr. Os yw wedi dod i ben, defnyddiwch y ddolen **Wedi anghofio'r cyfrinair** ar y dudalen fewngofnodi.
>
> Cofion gorau.
>
> This is an automated email generated by **Cartor Security Printers Ltd.**
> Valiant Way, i54 Business Park, Wolverhampton, WV9 5GB, United Kingdom
> Tel: +44 0800 229 4160
>
> © 2026

*Ffigur 3 : Hysbysiad e-bost i osod cyfrinair*

4. Dewiswch y ddolen "Cliciwch yma i fwrw ymlaen".





*Ffigur 4 : Dolen i'r blwch deialog cyfrinair*

5. Rhowch eich cyfrinair ac yna cadarnhau'r cyfrinair.




CYFRINACHOL




*Ffigur 5 : Gosod cyfrinair*

6. Dewiswch y ddolen “Yn ôl i’r rhaglen”. Bydd hyn yn mynd â chi i dudalen mewngofnodi Porth VDS y DU.




*Ffigur 6 : Dychwelyd i dudalen mewngofnodi Porth VDS y DU*

7. Mewngofnodwch i Borth VDS y DU drwy ddilyn y camau yn yr adran nesaf.

## 3.3 Defnyddio Porth VDS y DU

Mae Porth VDS y DU ar gyfer Gweithredwyr Prynu, ac yn eu galluogi i archebu ac i reoli archebion am stampiau’r doll fepio.

Er mwyn defnyddio Porth VDS y DU,

- Ar ôl i’ch cais i ddilysu eich manylion mewngofnodi fod yn llwyddiannus (fel y disgrifir yn yr adran flaenorol), gall defnyddwyr roi eu henw defnyddiwr a’u cyfrinair ar dudalen Mewngofnodi Porth VDS y DU er mwyn defnyddio’r porth (ffigur isod).



CYFRINACHOL

Rhowch eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair wedyn cliciwch "Mewngofnodi."


**Sylwer**: Os bydd y dudalen hon Gwe yn segur am gyfnod hir (ychydig funudau), bydd angen i chi ail-ddilysu i barhau.




*Ffigur 7: Sgrin Mewngofnodi*

## 3.4 Dewislen Porth VDS y DU


Ar ôl mewngofnodi i Borth VDS y DU, bydd defnyddwyr yn gallu defnyddio'r swyddogaethau Archebu yn y ddewislen ar y chwith. Mae'r botymau Chwilio am Archeb a Creu Archeb ar gael yn yr isddewislen.




*Ffigur 8: Prif ddewislen*

## 3.5 Awgrymiadau Gwe-lywio

Mae'r adran hon yn amlinellu'r nodweddion sy'n cael eu defnyddio gan fwyaf ym Mhorth VDS y DU.




*Ffigur 9 : Awgrymiadau gwe-lywio*

1. Bydd yr isddewislenni'n ymddangos drwy glicio'r botwm (v).



CYFRINACHOL

2. Bydd y ddewislen cwympo yn cuddio’r bar dewislenni.
3. Bydd y botwm "Allgofnodi" yn gadael y rhaglen ac yn mynd â’r defnyddiwr yn ôl i'r dudalen mewngofnodi. I gael gafael ar y botwm Allgofnodi, cliciwch ar y botwm iaith yn yr ymyl dde uchaf.

# 4 Rhagolwg

Gall Gweithredwyr Prynu chwilio a gweld y terfyn prynu sydd ar gael ar gyfer cyfnod.

## 4.1 Beth yw’r terfynau prynu ?

Rhaid i bob Gweithredwr Prynu gael terfyn prynu i ofyn am stampiau newydd. Mae'r terfyn prynu yn cael ei greu pan fydd awdurdodau’r DU wedi cymeradwyo cais cofrestru’r Gweithredwr Prynu ym Mhorth VDS y DU. Bydd gan bob Gweithredwr Prynu derfyn prynu wedi’i gymeradwyo gan awdurdodau’r DU a fydd yn para am chwarter (cyfnod o 3 mis). Bydd gan bob Gweithredwr Prynu ei gyfnod ei hun, ac mae’r cyfnod cyntaf yn dechrau o’r dyddiad y mae’r Gweithredwr Prynu wedi’i gofrestru yn y system.

Mae terfynau prynu yn cael eu defnyddio er mwyn cyfyngu ar gyfanswm nifer y stampiau y gall y Gweithredwr Prynu ofyn amdanynt, i ddim ond y nifer sydd wedi'i gymeradwyo gan awdurdodau’r DU ar gyfer y cyfnod cysylltiedig.

Dyma ganllawiau swyddogol gan awdurdodau’r DU :

1. Bydd awdurdodau’r DU yn rhoi gwybod i’r Cyflenwr am uchafswm nifer stampiau’r doll mae pob gweithredwr prynu wedi’i gymeradwyo i’w prynu am y tri (3) mis canlynol. Mae’r cyfnod o dri (3) mis yn dechrau ar gyfer pob gweithredwr prynu unigol pan fydd awdurdodau’r DU yn rhoi gwybod i’r Cyflenwr am y terfyn cychwynnol neu’r terfyn wedi’i ddiweddaru. Mae hyn yn golygu y bydd y cyfnodau o dri (3) mis yn wahanol i bob gweithredwr prynu. Awdurdodau’r DU fydd yn pennu’r terfyn cychwynnol hwn fel rhan o’r broses gymeradwyo ar sail y cynlluniau busnes a ddarperir. Bydd gweithredwyr gosod yn y DU yn cael prynu hyd at y terfyn hwn a lwfans o 30% er mwyn gallu tyfu. Nod hynny yw peidio â llesteirio twf busnesau go iawn. Mae cynrychiolwyr yn y DU yn cael prynu hyd at y terfyn hwn a lwfans o 50% er mwyn gallu tyfu i gefnon gi eu cynrychiolaeth o weithgynhyrchwyr tramor.

2. Dylai’r Cyflenwr wrthod unrhyw ymgais gan weithredwr prynu i archebu dros y terfyn hwn cyn pen tri (3) mis. Mae hyn yn berthnasol pan fydd cyfanswm un archeb dros y terfyn hwn a phan fydd cyfanswm cyfuniad o archebion o fewn tri (3) mis dros y terfyn. Yn yr ail achos, byddid yn gwrthod yr archeb a fyddai’n golygu bod y gweithredwr prynu yn mynd dros ei derfyn.

Edrychwch ar yr enghraifft isod.

Enghraifft o sut bydd terfynau prynu yn gweithio :

| | **Awdurdodau'r DU yn pennu’r terfyn cychwynnol** | **Misoedd 1 i 3 Awdurdodau’r DU yn pennu’r terfyn cychwynnol a lwfans er mwyn tyfu** | **Misoedd 1 i 3 Nifer go iawn yr archeb** | **Misoedd 4 i 6 Pennu terfyn newydd ar sail yr archebion go iawn a lwfans er mwyn gallu tyfu** | **Misoedd 4 i 6 Nifer go iawn yr archeb** | **Misoedd 7 i 9 Pennu terfyn newydd ar sail yr archebion go iawn a lwfans er mwyn gallu tyfu** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredwyr prynu yn y DU | 1000 | 1300 | 1300 | 1690 | 1500 | 1950 |
| Cynrychiolydd y DU | 1000 | 1500 | 1500 | 2250 | 2000 | 3000 |



CYFRINACHOL

## 4.2 Gweld a Chwilio am Derfynau Prynu


I weld y terfynau prynu sydd ar gael ar gyfer cyfnod:

1. Dewiswch **Terfyn prynu** (ar gael o'r rhestr ar yr ymyl chwith o dan **Rhagolwg**)




*Ffigur 10: Sgrin terfyn prynu*

2. Mae'r system yn dangos yr holl derfynau prynu wedi'u grwpio yn ôl cynnyrch; cyfanswm y stampiau y ceir gofyn amdanynt, y cyfanswm y gofynnwyd amdanynt a chynnydd cyffredinol eu defnyddio.



**Terfynau prynu**

Cyfnod dyddiad
18/03/2026 i 17/06/2026

Clirio


| Cynnyrch | Terfyn prynu | Wedi'i ofyn | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| VAPES LOCAL | 999,999,999 | 7,326,000 | 1% |

*Ffigur 11: Sgrin gwybodaeth terfyn prynu*

3. Rhag ofn y bydd gan Weithredwyr prynu fwy nag un cyfnod, mae'n bosibl hidlo'r cyfnod drwy ddefnyddio'r meini prawf chwilio sy'n ymddangos yn nhop y sgrin.

# 5 Archebu

Mae cydran Archebu Porth VDS y DU yn galluogi defnyddwyr i greu archebion ac i reoli archebion am stampiau'r doll.





*Ffigur 12: Dewislen Archebu*



CYFRINACHOL

Adeg creu archeb, bydd y system yn neilltuo rhif ID Archeb unigryw a dilyniannol. Bydd Gweithredwyr Prynu yn gallu defnyddio'r rhif hwn i dracio eu harchebion ym Mhorth VDS y DU.




*Ffigur 13: Sgrin Archebu*

1. Hidlyddion Chwilio
   - Botwm clirio'r hidlydd
   - Botwm chwilio
2. Rhestr o archebion
3. Botwm creu (archeb newydd)
4. Statws archebion


---

**Nodiadau:**
- Mae'r mathau o godau sydd ar gael ym Mhorth VDS y DU wedi'u haddasu yn ôl anghenion penodol.
- Mae'r cyfeirnodau cadwyn gyflenwi sydd ar gael yn berthnasol i'r math o god dan sylw. Gall un archeb gynnwys un cyfeirnod cadwyn gyflenwi neu nifer.

---

## 5.1 Chwilio am Archeb

Mae'r dudalen Chwilio am Archeb yn dangos rhestr gronolegol o'r holl archebion sydd â statws, Ids, dyddiadau creu, a chyrchfannau (safleoedd) gwahanol.




*Ffigur 14: Chwilio am archeb*

1. Mae'r dewisiadau meini prawf chwilio canlynol ar gael:
   - Dynodydd: Rhowch ID yr Archeb (rhaid rhoi o leiaf 3 digid).
   - Cyrchfan: Dewiswch gwsmer o'r gwymprestr (gan gyfeirio at yr endid busnes y cafodd yr archeb ei chludo iddo).
   - Statws: Dewiswch statws yr archeb o'r gwymprestr i hidlo archebion sydd â'r statws (gweler y tabl isod)



CYFRINACHOL

2. Ar ôl dewis un neu fwy o feini prawf, cliciwch y botwm Chwilio.
3. Bydd yr archebion sy'n cyfateb yn cael eu rhestru yn y tabl.
4. I chwilio o'r newydd, dewiswch y botwm Clirio i glirio'r holl hidlyddion ac ailosod y meini prawf.

## 5.2 Statws Archeb

Pan fydd archeb yn cael ei diweddaru ym Mhorth VDS y DU, bydd y defnyddiwr sydd wedi mewngofnodi yn cael hysbysiad (dros e-bost) am statws yr archeb yn ystod pob cam trawsnewid, fel y rhestrir isod:

| STATWS | DISGRIFIAD |
|---|---|
| Crëwyd | Ar ôl creu archeb newydd ym Mhorth VDS y DU, bydd ID Archeb unigryw yn cael ei greu'n awtomatig a'i gysylltu â'r archeb newydd. Mae modd defnyddio'r ID hwn i olrhain yr archeb o'r adeg y cafodd ei chreu tan i'r Gweithredwr Prynu neu'r Gweithredwr Gosod ei derbyn. |
| Cymeradwywyd | Ar ôl cymeradwyo archeb, bydd statws yr archeb yn newid o Crëwyd i Cymeradwywyd. |
| Gwrthodwyd | Ar ôl gwrthod archeb, bydd statws yr archeb yn newid o Crëwyd i Gwrthodwyd. Mae modd gwrthod yr archeb am sawl rheswm ac mae'n ystyried sefyllfa gyfredol y Gweithredwr Prynu. |
| Talwyd | Ar ôl talu am archeb, bydd statws yr archeb yn newid i *Talwyd.* |
| Danfonwyd | Pan fydd archeb wedi cael ei thalu a bod yr archeb lawn wedi'i chludo i'r Gweithredwr Prynu neu'r Gweithredwr Gosod, bydd statws yr archeb yn newid o Talwyd i Danfonwyd. Ar ôl i'r Gweithredwr Prynu neu'r Gweithredwr Gosod dderbyn yr archeb, nhw sydd nawr yn gyfrifol am gadw stampiau'r doll yn ddiogel. |
| Danfonwyd yn rhannol | Pan fydd rhan o archeb wedi cael ei chludo i'r Gweithredwr Prynu neu'r Gweithredwr Gosod, bydd statws yr archeb yn newid i *Danfonwyd yn Rhannol.* Dim ond pan fydd rhan arall yr archeb yn cael ei chludo bydd statws yr archeb yn newid i *Danfonwyd*. |
| Canslwyd | Pan fydd y Gweithredwr Prynu yn canslo archeb, bydd statws yr archeb yn newid i Canslwyd. Dim ond archebion sydd newydd gael eu creu/cymeradwy mae'r Gweithredwr Prynu yn gallu eu canslo. |
| Derbyniwyd | Pan fydd y Gweithredwr Prynu wedi derbyn a chydnabod archeb, bydd statws yr archeb yn newid i *Derbyniwyd.* Ar ôl i'r Gweithredwr Prynu neu'r Gweithredwr Gosod dderbyn yr archeb, nhw sydd nawr yn gyfrifol am gadw stampiau'r doll yn ddiogel. |

## 5.3 Gweld Symudiad Archeb


Mae modd gweld symudiad archebion drwy bob cam trawsnewid o "Crëwyd" i "Danfonwyd." Gall defnyddwyr weld manylion y cynnyrch, gwybodaeth am y creu, a'r manylion danfon.

I weld symudiad gorchymyn:

1. Ym mhrif restr yr archebion, cliciwch ar y rhif Dynodydd i agor tudalen manylion yr archeb.




CYFRINACHOL



| Dynodydd | Cyrchfan | Dyddiad creu | Diweddarwyd ddiwethaf gan | Statws |
|---|---|---|---|---|
| 0960000069 | Vaping In The UK | 14/04/2026 | system-auto-transition | Cymeradwywyd |
| 0960000065 | Vaping In The UK | 30/03/2026 | demo | Cymeradwywyd |
| 0960000064 | Vaping In The UK | 30/03/2026 | demo | Cymeradwywyd |
| 0960000062 | Vaping In The UK | 30/03/2026 | user | Canslwyd |
| 0960000060 | Vaping In The UK | 26/03/2026 | demo | Cymeradwywyd |
| 0960000059 | Vaping In The UK | 26/03/2026 | demo | Cymeradwywyd |
| 0960000058 | Vaping In The UK | 26/03/2026 | demo | Gwrthodwyd |

*Ffigur 15: Manylion yr archeb*

2. Ar y dudalen manylion yr archeb, mae'r tabiau canlynol ar gael yn yr ymyl chwith : Gwybodaeth am archeb, Hanes Archeb, a Danfoniadau. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei llenwi ar sail symudiadau'r archeb gyfredol.





*Ffigur 16 : Tabiau manylion archeb*

3. Dewiswch y tab cyntaf Gwybodaeth am yr archeb i weld Statws yr archeb, dangosir ID yr Archeb, dyddiad ac amser creu, cyfeiriad cludo, enw cynnyrch, dosbarthwr a nifer.




CYFRINACHOL

CARTOR SECURITY PRINTERS





*Ffigur 17: Gwybodaeth am yr archeb*

4. Dewiswch y tab **Hanes yr Archeb** i weld crynodeb o'r camau trawsnewid ar gyfer yr archeb gyfredol (o "Crëwyd" i "Danfonwyd"), gan gynnwys yr union amser a dyddiad a'r statws.





*Ffigur 18 : Hanes yr archeb*

5. Dewiswch y tab **Danfoniadau**, dangosir yr ID danfon, ynghyd â'r dyddiad a'r amser danfon a'r rhestr o IDs unedau deunydd pacio. Sylwer: bydd gan ddanfoniadau rhannol IDs Danfon ar wahân.




*Ffigur 19: Danfon archeb*

6. Cliciwch y gwymplen Danfoniadau i weld manylion yr archeb.




*Ffigur 20 : Manylion danfon unedau deunydd pacio*


7. I ddychwelyd i brif restr yr archebion, dewiswch “Yn ôl i archebion.”

## 5.4 Creu Archeb o fewn Terfyn Prynu

Wrth greu archeb, gall Gweithredwyr Prynu ddewis y cyfeiriad cludo, dewis o fwy nag un math o god, a nodi’r nifer i’w archebu. Ar ôl creu’r archeb, mae ID Archeb yn cael ei greu’n awtomatig ym Mhorth VDS y DU. Bydd Gweithredwyr Prynu yn gallu defnyddio’r ID Archeb hwn i dracio eu harchebion ym Mhorth VDS y DU.

Er mwyn creu archeb:


1. Dewiswch y botwm Creu (sydd ar gael o’r Ddewislen ymyl chwith neu’r ffenest Chwilio).




*Ffigur 21: Creu archeb*

2. Ar y dudalen Cyfeiriad cludo (ffigur isod), defnyddiwch y blwch Canfod cyfeiriad i chwilio am safle neu ddewis safle sy’n cael ei ddangos.


CARTOR
SECURITY PRINTERS




*Ffigur 22: Sgrin cyfeiriad cludo*


3. Ewch i'r cam nesaf drwy glicio '**Dewis cynnyrch**.'

4. Yn y ffenestr Cynnyrch (ffigur isod), dewiswch gynnyrch neu defnyddiwch y blwch chwilio Canfod cynnyrch i ddod o hyd i'r cynnyrch (sylwer bod Cynnyrch yn cyfeirio at y math o god rydych am ei archebu).
   a) Dewiswch y nifer i'w archebu drwy glicio'r gwymprestr a dewis nifer (mae'r nifer yn gysylltiedig â'r unedau a archebwyd a'r math o god dan sylw).
   b) Ar ochr chwith uchaf y sgrin, bydd y system yn adlewyrchu'r terfyn prynu sydd ar gael ar gyfer archebion newydd. Mae terfynau prynu yn dangos cyfanswm y stampiau y caiff y Gweithredwr Prynu ofyn amdanynt ar gyfer y chwarter cyfredol ar gyfer pob grŵp cod.





*Ffigur 23: Sgrin cynnyrch*

c) Gall defnyddwyr gyflwyno'r nifer yn unrhyw un o'r cynhyrchion sydd ar gael i'w prynu. Wrth gyflwyno'r nifer, bydd y system yn diweddaru'r terfyn prynu sydd ar gael yn awtomatig drwy leihau'r nifer y gofynnir amdano o'r cyfanswm (ffigur isod).





*Ffigur 24: Sgrin cynnyrch*

d) Os yw'r cyfanswm y gofynnir amdano yn fwy na'r terfyn prynu (ffigur isod), bydd y system yn rhwystro'r cam nesaf drwy analluogi'r botwm “Bwrw ymlaen i dalu”. Ar ben hynny, bydd neges “Dim digon o falans” yn ymddangos o dan y botwm “Bwrw ymlaen i dalu”, ac mae balans negyddol yn cael ei ddangos mewn coch ar yr ochr chwith uchaf.




*Ffigur 25: Sgrin cynnyrch*

e) Ar ôl dewis y nifer yn ofalus a'i fod o fewn y terfyn prynu (ffigur isod), cliciwch **Bwrw ymlaen i dalu** i fwrw ymlaen â'r archeb.





*Ffigur 26: Sgrin cynnyrch*

5. Bydd y ffenest Talu (ffigur isod) wedyn yn dangos crynodeb o'r eitemau a archebwyd.


   Mae defnyddwyr yn gallu:
   - Cadarnhau bod yr archeb yn gywir.
   - Hidlo'r rhestr drwy deipio enw'r cynnyrch (neu ran ohono) yn y maes Canfod cynnyrch – bydd y rhestr yn cael ei hidlo'n syth i ddangos y canlyniadau sy'n cyfateb.
   - Cliciwch Dileu 🗑 i dynnu unrhyw gynnyrch diangen o'r rhestr.
   - Cliciwch Yn ôl i ddychwelyd i'r ffenest flaenorol ac addasu'r archeb.
   - Ychwanegwch Gyfeirnod Allanol e.e. cyfeirnod gweithgynhyrchu / ID swp.
   - Rhowch Sylw yn y maes a ddarperir.

   Pan fyddwch yn fodlon ar fanylion yr archeb, cliciwch y botwm Talu i orffen y broses archebu.




*Ffigur 27: Sgrin talu am archeb*

6. Ar ôl creu'r archeb, bydd neges gadarnhau ac ID Archeb wedi'i greu'n awtomatig yn ymddangos. Mae gan ddefnyddwyr yr opsiwn i greu archeb arall neu ddychwelyd i brif restr yr archebion.





*Ffigur 28: Cadarnhad creu archeb*

7. Drwy ddewis Mynd i archebion, gall defnyddwyr weld yr archeb sydd newydd ei chreu gyda'r statws Crëwyd, ym mhrif restr yr archebion (ffigur isod).



CYFRINACHOL




*Ffigur 29 : Wedi llwyddo i greu'r archeb*

8. Ar ôl llwyddo i archebu stampiau'r doll, bydd y system yn diweddaru'r terfyn prynu sydd ar gael ar gyfer archebion yn y dyfodol.


9. Bydd **Cartor yn cysylltu** â Gweithredwyr Prynu i gadarnhau'r **manylion talu a danfon**.

## 5.5 Canslo Archeb

Mae gan Weithredwyr Prynu ganiatâd i ganslo eu harchebion eu hunain gyda'r statws Crëwyd neu Cymeradwywyd. Fodd bynnag, nid oes modd canslo archeb gyda'r statws Talwyd, Danfonwyd, Danfonwyd yn Rhannol, neu Gwrthodwyd. Dim ond Gweinyddwyr sydd â chaniatâd i ganslo archeb Talwyd.

Er mwyn canslo archeb:

1. Cliciwch yr ID Archeb i agor yr archeb o'r rhestr archebion.





*Ffigur 30: Dewis archeb i'w chanslo*

2. Yn y ffenest manylion archebu, cliciwch Canslo i fwrw ymlaen i ganslo.




CYFRINACHOL




*Ffigur 31: Gwybodaeth am ganslo archeb*


3. Bydd neges yn ymddangos yn gofyn am gadarnhad i ganslo'r archeb.

4. Cliciwch Iawn i gadarnhau.





*Ffigur 32: Cadarnhau canslo archeb*

5. Ar ôl canslo archeb, bydd neges cadarnhau gwyrdd yn ymddangos, a bydd statws yr archeb yn newid i *Canslwyd*.





*Ffigur 33: Cadarnhad canslo archeb*

6. Drwy glicio Hanes yr archeb (ffigur isod), bydd defnyddwyr yn gallu gweld y digwyddiad Canslwyd mewn perthynas â'r archeb.




*Ffigur 34: Sgrin hanes yr archeb*

7. Drwy glicio **Yn ôl i archebion**, gall y defnyddiwr weld statws *Canslwyd* yr archeb ym mhrif restr yr archebion




*Ffigur 35: Rhestr o archebion*

8. Ar ôl canslo archeb, bydd y system yn diweddaru'r terfyn prynu drwy ychwanegu nifer stampiau'r archeb a ganslwyd at y trothwy

# 6 Geirfa

| Termau / Talfyriadau | Disgrifiad |
|---|---|
| Math o god | Mae math o god yn cael ei ddefnyddio i grwpio cynnyrch fepio i gynllun toll. |
| ID math o god | Mae hwn yn rhif adnabod unigryw sy'n gysylltiedig â math o god. |
| Toll | Treth a godir ar gynnyrch fepio yn y DU. |
| Uned Trin (HU) | Mae Uned Trin (HU) hefyd yn cael ei galw'n Uned Deunydd Pacio (PU). |
| HU ID | Mae ID Uned Trin (HU ID) yn ID unigryw sy'n gysylltiedig ag uned deunydd pacio (sy'n gyfystyr ag uned trin). |
| HRC | Mae Cod Darllenadwy i Bobl (HRC) yn god alffaniwmerig unigryw sy'n rhoi gwiriad gweledol y gall pobl ei ddarllen. |
| Uned Deunydd Pacio (PU) | Rîl o stampiau neu becyn o ddalenni sy'n cynnwys y data diogelwch. |
| PU ID | Mae ID Uned Deunydd Pacio (PU ID) yn ID unigryw sy'n gysylltiedig ag uned deunydd pacio. |
| Cyfeirnod SAP | Mae hwn yn gyfeirnod cadwyn gyflenwi sy'n cael ei greu gan y system SAP ac mae'n gysylltiedig â chynnyrch mae modd eu harchebu ac nad oes modd eu harchebu. |
| SKU | Mae'r Uned Cadw Stoc (SKU) yn gwahaniaethu rhwng cynnyrch tebyg yn ôl priodoleddau penodol. |
| Porth VDS y DU | Rhaglen ar y we i Weithredwyr Prynu osod a rheoli archebion ar gyfer stampiau'r doll fepio. |



CYFRINACHOL

# 7 Cysylltu

| Swyddfeydd CARTOR | |
|---|---|
| **Cartor Security Printers Ltd.**<br>Valiant Way,<br>i54 Business Park,<br>Wolverhampton,<br>WV9 5GB,<br>Y Deyrnas Unedig | Ffôn: +44 0800 229 4160<br>E-bost: VDS-support@cartor.com<br>Gwefan: https://vds-cartor.co.uk |



CYFRINACHOL